



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Bwrdd Rheoleiddio Cymru ar Grwp Llywio Gwerth am Arian

Adolygiad o Werth am Arian - Adroddiad Cynnydd

Chwefror 2017

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi hynt a chanfyddiadau'r adolygiad o werth am arian a gyfarwyddwyd gan Fwrdd Rheoleiddio Cymru a'r syniadaeth sydd wedi deillio ohono hyd yma, gan adrodd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma o ran gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Llywio Gwerth am Arian.

Bu'r dull o gynnal yr adolygiad yn un arloesol a chosteffeithiol.

Wrth gynnal yr adolygiad, mabwysiadwyd dull cydgynhyrchu cydweithrediadol, sy'n wahanol iawn i ddulliau adolygu blaenorol lle cyfarwyddwyd ymgynghorwyr allanol i gyflawni gwaith adolygu, gyda goruchwyliaeth berthnasol.

Roedd y dull organig o gynnal yr adolygiad hefyd yn un arloesol, gyda'r Grŵp Llywio yn ystyried cynnydd ac yn trafod dealltwriaeth newydd ym mhob cyfarfod ac yn seilio cam nesaf y gwaith ar ei ddealltwriaeth newydd.

Bu'r dull hwn o gynnwys y bobl gywir, gan sicrhau mewnbwn gan randdeiliaid allweddol, wedi'i ategu gan ddarn o waith ymchwil penodol, yn llwyddiannus – o ran cost is ac wrth ysgogi newid amlwg a datblygu dulliau gweithredu ymhellach.

Un o elfennau allweddol y llwyddiant hwnnw yw'r ffordd y mae'r gwaith wedi'i wneud yn ogystal â chanlyniadau ac allbynnau'r gwaith hwnnw hyd yma.

Mae'r broses adolygu hyd yma ei hun wedi helpu i newid safbwyntiau o ran gwerth am arian yn sylweddol.

Mae'r broses adolygu hyd yma, y trafodaethau a'r syniadau sydd wedi deillio o hynny a'r dull cydweithrediadol a fabwysiadwyd wedi arwain at newid mawr yn agweddau'r sector at werth am arian - o ddrwgdybiaeth cyn i'r broses ddechrau yn ystod Gwanwyn 2016 i'r sefyllfa bresennol lle mae'n fwy amlwg bod yr angen i weithredu mewn perthynas â gwerth am arian yn cael ei dderbyn a lle mae agweddau at hynny yn gadarnhaol. Mae awyrgylch o fwy o ymddiriedaeth ynglŷn â gwerth am arian rhwng y sector a'r Rheoleiddiwr wedi datblygu. Mae'r Rheoleiddiwr wedi dangos ffocws clir ar gynorthwyo a gwella yn hytrach na gorfodi. Mae'r Sector wedi dangos parodrwydd a'r gallu i wneud pethau a bwrw ymlaen â'r agenda. Mae'r ddau wedi gweithio mewn ffordd bragmatig i gynnal y momentwm.

Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer datblygu dull y sector o sicrhau gwerth am arian ymhellach - nid fel pwnc annibynnol ond fel pwnc sy'n rhan annatod o holl fusnes y cymdeithasau tai ac sy'n ei rychwantu.

Mae nifer o ganlyniadau cadarnhaol eisoes wedi deillio o'r Adolygiad

Mae nifer o ganlyniadau a datblygiadau cadarnhaol eisoes i'w gweld

- Newidiadau cadarnhaol o ran safbwyntiau'r sector ar werth am arian a syniadaeth fwy hyddysg ynglŷn â gwerth am arian
- Barn sy'n newid am werth am arian fel elfen allweddol o lywodraethu da, prosesau gwneud penderfyniadau da a meddwl strategol, wedi'i gosod yn gadarn yn Ystafell y Bwrdd
- Cydnabyddiaeth ehangach o fanteision amlwg gwirioneddol dull effeithiol o sicrhau gwerth am arian, sef bod cael pethau'n iawn yn golgu y gall cymdeithasau tai gyflawni mwy.
- Gweithgarwch cydgynhyrchu pragmatig ac effeithiol ar lefel strategol
- Cyfres gytûn o fesurau o werth am arian y mae'r sector wedi'u datblygu ac wedi ymrwymo iddynt. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cyfrifon Cynhwysfawr, gyda mewnbwn gan bob Cymdeithas, a byddant ar gael bob blwyddyn gan ddechrau gyda'r flwyddyn hon (2016/17).
- Caiff manylion am berfformiad o ran y mesurau o werth am arian hyn ar gyfer y sector cyfan eu cyhoeddi yn y Cyfrifon Cynhwysfawr. Ni chaiff manylion am berfformiad unigol eu cyhoeddi felly er yr anogir cymdeithasau tai unigol i gyhoeddi manylion am eu perfformiad er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.
- Mae'r prif fesurau o werth am arian hyn yn nodi'r sefyllfa o ran sicrhau gwerth am arian ar gyfer y sector cyfan ac maent ar gael, mewn cronfa data cyfres amser, i'r canlynol:
 - Y sector, er mwyn helpu i wella dulliau unigol o sicrhau gwerth am arian
 - Y rheoleiddiwr, er mwyn helpu i sicrhau trafodaeth hyddysg, benodol ynghylch gwerth am arian rhwng rheolwyr rheoleiddio a chymdeithasau unigol sy'n canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth a gwella
 - Tenantiaid, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau atebolrwydd a dangos tryloywder
- Nodi meysydd lle y gellir gwneud rhagor o waith cydweithrediadol mewn perthynas â gwerth am arian. Ymhlith y blaenoriaethau presennol mae gwaith ar safbwyntiau tenantiaid ar werth am arian a gwerth cymdeithasol yn ogystal ag adolygiad manwl o un maes gweithgarwch allweddol.

- Cydnabyddiaeth ehangach o'r ffaith bod y Rheoleiddiwr yn ceisio mabwysiadu dull galluogi nad yw'n rhagnodol. Mae'r dull galluogi hwn yn ceisio annog sefydliadau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnoddau y maent yn eu defnyddio. Mae'r dull hwn sydd wedi'i deilwra'n fwy yn cyferbynnu â'r dewis amgen, sef dull gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyrraedd safon gyffredinol o ran y gydberthynas rhwng adnoddau ac allbynnau.
- Mae gwerth am arian bellach yn un o'r safonau perfformiad diwygiedig - "Sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar y busnes – mae'n dangos dull strategol o ymdrin â gwerth am arian a'i sicrhau ym mhob rhan o'r busnes" ac, felly, yn un o'r ffactorau a fydd yn sail i benderyniadau rheoleiddio yn y dyfodol.

Mae'r Sector a'r Rheoleiddiwr wedi cyrraedd man aros ar y daith hwy i sicrhau gwerth am arian

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei lunio er mwyn adrodd ar gynnydd a nodi'r man aros hwnnw. Bwriedir iddo fod yn sail i ragor o gyfathrebu a dysgu ynglŷch gwerth am arian mewn amrywiaeth o fforymau.

Ble nesaf?

Bydd gwaith y Grŵp Llywio Gwerth am Arian yn parhau.

Mae'r Grŵp Llywio a Bwrdd Rheoleiddio Cymru wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu pellach. Mae'r Grŵp Llywio wedi datblygu cynllun gwaith ar gyfer 2017/18, sy'n seiliedig ar y blaenoriaethau hyn, a bydd yn monitro cynnydd yn ofalus er mwyn cynnal y momentwm.

Mae lleoli gwerth am arian yn bendant yn ystafell y bwrdd, gan fabwysiadu dull gweithredu strategol nad yw'n rhy weithredol, a mynd i'r afael â'r eitemau sylweddol o safbwynt gwerth am arian, yn allweddol i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- Datblygu dulliau effeithiol o sicrhau gwerth am arian a gwerth cymdeithasol. Cartrefi Cymunedol Cymru sy'n arwain y gwaith hwn.
- Datblygu dulliau o ystyried elfennau tenantiaid ar werth am arian a datblygu mesurau o ganlyniadau gwasanaethau, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth am foddhad tenantiaid. TPAS Cymru sy'n arwain y gwaith hwn.
- Ffocws manwl ar werth am arian ar gyfer maes allweddol o gymdeithas dai. Mae'r maes y dylid canolbwyntio arno wrthi'n cael ei drafod ar hyn o bryd.

- Sicrhau bod cyswllt rheoleiddiol yn canolbwyntio'n fwy ar werth am arian
- Disgwyliadau uwch o ran ffocws y Bwrdd ar werth am arian fel elfen allweddol o lywodraethu da a'i gyfrifoldeb am hynny
- Ymgorffori trafodaethau penodol ynghylch gwerth am arian mewn cyswllt rheoleiddiol. Bydd y tîm rheoleiddio yn defnyddio'r prif fesurau o werth am arian y cytunwyd arnynt i agor trafodaethau â chymdeithasau tai, gan gynnwys aelodau byrddau, ynghylch eu dealltwriaeth o berfformiad o ran sicrhau gwerth am arian a sut y maent yn nodi gwelliannau ac yn cynllunio ar eu cyfer gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth honno.
- Defnyddio canfyddiadau sy'n deillio o gyswllt rheoleiddiol i asesu cynnydd y sector
- Adolygu effeithiolrwydd, perthnasedd a chwmpas y mesurau o werth am arian ar sail y profiad a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf y'u defnyddiwyd.

Mae cydweithio, cydweithredu a phragmatiaeth barhaus yn allweddol i wneud cynnydd. Bydd y grŵp llywio gwerth am arian yn parhau i gynnal momentwm gwaith ar werth am arian ond gydag aelodau newydd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ar gyfer camau nesaf y gwaith.

ADRAN 1 – CYFLWYNIAD

CYD-DESTUN

Penderfynodd Bwrdd Rheoleiddio Cymru yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2016 wneud gwerth am arian yn destun ei adolygiad thematig cyntaf.

Pam adolygu gwerth am arian nawr?

- Mae dulliau o sicrhau gwerth am arian yng Nghymru yn datblygu. Wrth ddod i'r casgliad hwn, ystyriodd y Bwrdd y canlynol:
 - canfyddiadau asesiadau/barn reoleiddiol sy'n cyfeirio at yr angen i nifer fawr o gymdeithasau tai yng Nghymru ddatblygu dull cynhwysfawr o sicrhau gwerth am arian i'r sefydliad cyfan
 - Ansawdd amrywiol adroddiadau gwerth am arian a gaiff eu llunio drwy brosesau hunanwerthuso.
- Ar hyn o bryd nid oes gan Gymru y symbyliad penodol iawn i sicrhau a dangos gwerth am arian a geir ar hyn o bryd yn Lloegr - gostwng rhenti, grant tai cymdeithasol yn dod i ben, y canfyddiad gwleidyddol o gymdeithasau tai fel sefydliadau sydd â gormod o adnoddau wrth gefn.
- Yr amgylchedd cynyddol beryglus lle mae cymdeithasau tai yn gweithredu. Mae effaith y diwygiadau lles a disgwyliadau uwch o ran cyflawniad cymdeithasau tai, e.e. targed y Llywodraeth o 20,000 o gartrefi, cyfraniad at flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, yn ffactorau pwerus sy'n ysgogi ymdrechion i wella dulliau o ymdrin â gwerth am arian a'i sicrhau.
- Yn y cyd-destun hwn, mae angen i gymdeithasau tai yng Nghymru sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion y cymunedau a wasanaethir ganddynt – yn y byrdymor a'r tymor hwy.

Yr hyn y ceisiodd yr Adolygiad ei gyflawni

- Drwy'r Adolygiad, ceisiodd y Bwrdd Rheoleiddio wneud y canlynol
 - Cael darlun o'r sefyllfa o ran gwerth am arian ym mhob rhan o'r sector cymdeithasau tai
 - Cefnogi dulliau gwell o sicrhau gwerth am arian ym mhob rhan o'r sector
 - Hyrwyddo trafodaeth a gwella syniadaeth ynghylch gwerth am arian
 - Hyrwyddo newid sylweddol yn nulliau cymdeithasau tai o sicrhau gwerth am arian

- O'r cychwyn cyntaf, roedd y Bwrdd Rheoleiddio yn glir y dylai'r adolygiad ymwneud yn bennaf â'r canlynol
 - gwella dulliau gweithredu,
 - mabwysiadu dull cefnogol er mwyn gwella perfformiad y sector
 - gwerth am arian yn gyffredinol, gan roi sylw i safbwyntiau tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau, gweithgareddau gwerth ychwanegol allweddol yn ogystal â gweithgareddau craidd cymdeithasau tai.
- Roedd y Bwrdd Rheoleiddio hefyd yn glir iawn ynghylch yr hyn NA fyddai'r Adolygiad yn ceisio ei gyflawni
 - Tablau cynghrair
 - Gorfodi
 - Ffocws ar leihau costau/mesurau ariannol yn unig
 - Dod i gasgliadau ar sail gwybodaeth gyfyngedig

Beth yw ystyr gwerth am arian?

- Mae angen cymhwyso dulliau gwerth am arian yn strategol (wrth ystyried opsiynau ac wrth wneud penderfyniadau) ac yn weithredol (wrth gyflawni'r strategaethau hynny y cytunwyd arnynt). Mae'n rhaid ei osod yng nghyd-destun nodau strategol sefydliad gyda gwerth yn cael ei ddiffinio yng nghyd-destun nodau a blaenoriaethau cyffredinol cymdeithas dai.
- Yn y bôn, mae a wnelo gwerth am arian â llywodraethu da, prosesau gwneud penderfyniadau cadarn a'r ffordd y caiff y busnes ei reoli a'i red-eg yn ogystal â lleihau costau. Felly, dylid sicrhau mai gwerth am arian yw egwyddor gyffredinol busnes cymdeithasau tai.
- Mae a wnelo Gwerth am Arian â mwy na dim ond ceisio arbed costau mewn cyfnod o gyni ariannol. Mae a wnelo ag edrych ar y busnes cyfan, nid dim ond yr ochr ariannol ond sicrhau cydbwysedd rhwng cost a boddhad a pherfformiad gwasanaethau a'r nod o wella gwasanaethau
- Mae elfennau allweddol gwerth am arian yn cynnwys
 - Sicrhau bod y mewnbynnau a wneir yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl, sicrhau'r gwerth mwyaf posibl am arian a dangos hynny i randdeiliaid
 - Gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig.
- Mae gwerth am arian yn hanfodol i wneud dewisiadau hyddysg, wedi'i ategu gan ddealltwriaeth o gostau cyfle'r opsiynau sydd ar gael.

Pa fanteision sy'n deillio o ddulliau gwell o sicrhau gwerth am arian?

- Mae gwell gwerth am arian, h.y. gwell defnydd o adnoddau, yn creu mwy o warged. Mae'r gwarged uwch hwnnw yn rhoi dewisiadau i gymdeithasau tai - e.e. adeiladu mwy o dai, cynnal asedau sy'n bodoli eisoes, darparu gwasanaethau gwerth ychwanegol, ehangu gweithrediadau - yn ogystal â darparu llwyfan ar gyfer penderfyniadau allweddol megis cynnal annibyniaeth a rhoi mantais gystadleuol.
- Yn y bôn, mae sicrhau gwell gwerth am arian yn golygu y gall cymdeithasau tai wneud mwy. Er mwyn osgoi dull lleihau costau cul, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn y mae'r gymdeithas dai wedi'i arbed, dylid canolbwyntio'n bennaf ar y cyfleoedd a all ddeillio o sicrhau gwell gwerth am arian h.y. faint yn rhagor y gellir ei wneud, er enghraifft, adeiladu mwy o gartrefi, mwy o weithgarwch â gwerth cymdeithasol, gwasanaethau gwell a mwy o wasanaethau, gwella cyflwr cartrefi sy'n bodoli eisoes. Gall manteision eraill gynnwys gwell hyder ymhlith rhoddwyr benthyciadau a chyfraddau benthyca ffafriol.

Beth yw ystyr atebolrwydd am werth am arian?

- Nid yw'n ddigon dweud eich bod yn sicrhau gwerth am arian, mae'n rhaid i chi ddangos hynny.
- Yng Nghymru, mae ein dull gweithredu sy'n datblygu yn cwmpasu atebolrwydd dwyffordd – i fyny at arianwyr a llywodraeth genedlaethol a lleol AC i lawr at randdeiliaid a derbynwyr y gwasanaeth.
- Mae angen cynnwys tenantiaid drwy gydol y broses, gan gynnwys pan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud. Mae ein hargymhellion yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hyn a'r angen i ddatblygu dulliau gweithredu sy'n sicrhau cyfranogiad effeithiol gan denantiaid.

Gwerth am arian – Rôl y Rheoleiddiwr

"The Welsh Government's expectations with regard to value for money are simple: whatever the housing association's business objectives are, it should use all the resources at its disposal to maximise their delivery, and then demonstrate effective delivery to its stakeholders through transparent self-evaluation". *Ian Williams, Llywodraeth Cymru, Pennaeth Datblygu'r Sector*

- Gan ddilyn egwyddorion sefydledig rheoleiddio yng Nghymru, nid yw'r Rheoleiddiwr yn rhagnodol o ran gwerth am arian.
- Mae gwerth am arian yn un o'r safonau perfformiad newydd sy'n rhan o'r Fframwaith Rheoleiddio. Mae'n ofynnol i gymdeithasau tai ddangos eu

bod yn sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar y busnes gan ddangos dull strategol o ymdrin â gwerth am arian a'i sicrhau ym mhob rhan o'r busnes.

- Mae'r gofyniad hwn yn rhoi cryn ryddid i gymdeithasau tai, eu tenantiaid a rhanddeiliaid eraill ddiffinio a dangos gwerth am arian a theilwra eu dull gweithredu i'w hamgylchiadau a'u blaenoriaethau penodol.
- Mae llywodraethu da yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian, ac nid oes a wnelo â rheolaeth ariannol yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu barn y rheoleiddiwr bod gwerth am arian yn fater strategol sy'n ymwneud â mwy na dim ond lleihau costau neu gaffael.
- Adlewyrchir y safbwynt hwn yng nghyhoeddiad HouseMark/Cartrefi Cymunedol Cymru, "Cynyddu ein Cyfraniad i'r Eithaf" (tudalen 12), sy'n nodi mai blociau adeiladu gwerth am arian yw - diffinio gwerth am arian fel cynyddu darpariaeth eich eiddo i'r eithaf; darparu gwerth am arian drwy ddarparu ymagwedd strategol at werth am arian a dangos llwyddiant drwy roi tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd.
- Mae'r Rheoleiddiwr yng Nghymru yn ceisio mabwysiadu dull sy'n galluogi ac yn annog, nad yw'n rhagnodol, yn hytrach na dull gorfodi. Mae'r dull galluogi hwn yn ceisio annog sefydliadau i sicrhau manteision dull effeithiol o sicrhau gwerth am arian, gan eu galluogi i wneud mwy a darparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnoddau y maent yn eu defnyddio.
- Rydym wedi gweld nad yw dulliau rhagnodol mewn mannau eraill, e.e. adroddiadau gwerth am arian blynyddol, wedi arwain at welliannau sylweddol o ran gwerth am arian. Mae profiad mewn mannau eraill hefyd yn dangos bod llawer o'r gwelliannu wedi bod yn rhai ymylol, nad oeddent o reidrwydd yn canolbwyntio ar yr eitemau sylweddol megis rheoli'r trysorlys, rhagnodi, gwerth cymdeithasol, asedau a gwarediadau, model darparu gwasanaethau, strwythur sefydliadau. Bu rhywfaint o wrthwynebiad i'r math hwnnw o ddull gweithredu. Yng Nghymru, mae ein dull gweithredu yn ceisio sicrhau bod y sector a'r rheoleiddiwr yn defnyddio eu hegri i fynd i'r afael â gwerth am arian a gwneud gwahaniaeth, nid i ateb heriau sy'n wynebu'r rheoleiddiwr a dadlau ynghylch y ffordd y caiff y ffigurau eu cyfrifo. Adlewyrchir hyn yn y ffordd y mae'r adolygiad hwn wedi'i gynnal.

Sut y cynhaliwyd yr Adolygiad – Y Grŵp Llywio Gwerth am Arian

- Cynhaliwyd yr Adolygiad ar sail gydweithrediadol gyda'r dull gweithredu yn datblygu drwy waith Grŵp Llywio Gwerth am Arian a oedd yn cynnwys nifer o gynrychiolwyr o'r sector a'r Bwrdd Rheoleiddio.

- Roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys amrywiaeth o unigolion a oedd yn ymwneud â'r sector tai yr oedd ganddynt ddiddordeb, a lefelau gwahanol o arbenigedd, ym maes gwerth am arian. Rhestrir yr aelodau yn Atodiad 1.
- Cysylltiadau pellach â rhanddeiliaid allweddol drwy adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Cyngori ar Reoleiddio a thrafodaethau yng nghyfarfodydd y grŵp hwnnw.
- Datblygodd y gwaith wrth i wybodaeth a dealltwriaeth y Grŵp Llywio o werth am arian gynyddu.
- Y nod oedd mabwysiadu dull gweithredu hyddysg a gwrthrychol, gan wrando ar randdeiliaid allweddol ac osgoi gweithio yn unol ag unrhyw fath o agenda a bennwyd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.
- Cafodd y broses o gwmpasu'r prosiect ei llywio gan drafodaethau â'r sector a frocerwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru ym mis Ebrill 2016. Yn sgil hyn, nodwyd y tri maes allweddol ar gyfer yr adolygiad – mesurau, safbwyntiau tenantiaid a gwerth cymdeithasol.
- Cyfarfu'r Grŵp Llywio bedair gwaith rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2016 a chyflwynodd adroddiadau i gyfarfodydd y Bwrdd Rheoleiddio ym mis Medi a mis Rhagfyr 2016.
- Cafodd yr holl waith ar fesurau ei wneud gan Fforwm Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru a oedd wedi'i gynrychioli ar y Grŵp Llywio.
- Cafodd syniadaeth ynghylch safbwyntiau tenantiaid ei llywio gan waith yr ymchwilyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, trafodaethau â sefydliadau sy'n cynrychioli tenantiaid a gwaith a wnaed gan y Panel Cyngori Tenantiaid yng nghynadleddau TPAS Cymru a Thenantiaid Cymru yn ystod Hydref 2016.
- Cafodd syniadaeth ynghylch gwerth cymdeithasol ei llywio gan waith yr ymchwilyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Adroddiad Cartrefi Cymunedol Cymru/HouseMark

Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Cartrefi Cymunedol Cymru a HouseMark adroddiad gwerth am arian, sef "Cynyddu ein Cyfraniad i'r Eithaf: Canllawiau

ymarferol i Gymdeithasau Tai Cymru ar sut i ddiffinio, darparu a dangos gwerth am arian." Defnyddiodd yr adroddiad brofiad staff a thenantiaid ym mhob rhan o'r sector cymdeithasau tai.

http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/HouseMark_CYM-WEB_1.pdf

Mae'r adroddiad hwn wedi helpu i ddatblygu'r agenda gwerth am arian gryn dipyn, gan helpu i ddangos ymrwymiad y sector i sicrhau gwerth am arian, nodi dull gweithredu posibl a chydabod bod gwerth am arian yn gwneud synnwyr busnes da ac y dylid ceisio ei sicrhau am y rheswm hwnnw, nid dim ond am fod y rheoleiddiwr yn dweud y dylid gwneud hynny.

RHAN 2 – Adolygiad o Lenyddiaeth

Er mwyn llywio syniadaeth y Grŵp Llywio a oedd yn datblygu, cynhaliodd ymchwilwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd adolygiad o lenyddiaeth.

Ceir yr adolygiad llawn yn


http://chcymru.org.uk/uploads/general/VfM_Literature_Review_-_Final.pdf

Crynodeb o'r Adolygiad o Lenyddiaeth

Gan ddilyn y briff a ddarparwyd ar gyfer yr Adolygiad hwn, a thrafodaeth ynghylch themâu a oedd yn dod i'r amlwg gyda'r gweithgor, nodwyd pum maes allweddol ar gyfer y darn hwn o waith, sef:

1. Heriau Cysyniadol:

Gellir gweld bod y diffiniad cyffredinol o werth am arian yn ymwneud â'r tri chategori canlynol, sef: darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd



Mae'r categori cyntaf yn ymwneud â faint o adnoddau a neilltuir ar gyfer y gweithgaredd; dylai hyn gyfateb i'r isafswm cost y mae angen mynd iddi er mwyn cwblhau'r gweithgaredd. Disgrifir hyn yn aml fel 'mewnbwn'.

Mae'r ail yn ymwneud â sicrhau'r allbwn mwyaf posibl o'r mewnbwn lleiaf posibl hwn. Mae hyn yn golygu gwneud y gorau o'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio.

Mae'r categori olaf yn gweithio i sicrhau y caiff y canlyniad arfaethedig ei gyflawni'n llawn drwy ddefnyddio'r adnoddau. Gellir disgrifio hyn fel 'canlyniad' proses.

Felly, mae gwerth am arian yn canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng yr adnoddau a ddefnyddir i gwblhau gweithgaredd ac effeithiolrwydd yr allbwn hwn. Y prawf ar gyfer gwerth am arian yw a ddefnyddiwyd lefel briodol o adnoddau i gyflawni canlyniad penodol.

Mae pedwerydd categori wedi'i ychwanegu at y fframwaith hwn, sef tegwch. Mae'r ychwanegiad hwn yn pwysleisio mai dim ond os cânt eu cyflawni'n deg y bydd gan weithgareddau werth.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi cwestiynau allweddol y dylid meddwl amdanynt wrth ystyried gwerth am arian, sef:

- Pwy sy'n cymryd rhan?
- Gwerthoedd pwy sy'n cael eu mesur?
- Sut y caiff y rhain eu mesur?

Mae'n bwysig ystyried y cysylltiad rhwng gwerth am arian ac atebolrwydd, yn enwedig o ran i bwy y mae sefydliadau yn atebol – arianwyr, defnyddwyr gwasanaethau neu'r ddau?

2. Gwerth am Arian ledled Prydain Fawr:

Mae'n bwysig nodi bod dulliau gweithredu gwahanol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban

- Lloegr – mae'r dull gweithredu yn seiliedig ar gost uned a pherfformiad economaidd yn unig
- Yr Alban – mae'r ffocws ar denantiaid a fforddiadwyedd a datblygu dull traws-sector o fesur gwerth am arian
- Cymru – mae ffocws yn datblygu ar ymgysylltu â thenantiaid a'r gallu i gyd-fynd â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru

3. Dulliau o sicrhau Gwerth am Arian mewn gwasanaethau cyhoeddus gwahanol:

Datblygu Rhyngwladol

- Mae'r pwyslais ar 'degwch' – mae'r ffocws hwn yn edrych ar degwch o fewn prosesau darparu gwasanaethau
- Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn cynnwys mesur effeithiau hirdymor ar fywydau unigolion ar ôl buddsoddi mewn gwasanaethau

Iechyd

- Mae mesuriadau gwerth am arian yn y sector hwn yn edrych ar ansawdd bywyd ar gyfer unigolion mewn perthynas â chost triniaethau


- Mae hyn yn cynnwys y cwestiwn beth all unigolion ei wneud a bod

4. Dulliau rhyngwladol o sicrhau Gwerth am Arian:

Mae'n ddefnyddiol edrych ar ddulliau rhyngwladol o sicrhau gwerth am arian, er enghraifft yn Awstralia mae'r dull gweithredu yn canolbwyntio ar asesu costau rheoli a chanlyniadau tenantiaid mewn tai cymdeithasol.


5. Gwerth Cymdeithasol:

Ceir gwahanol ddiffiniadau a modelau o werth cymdeithasol sy'n amrywio yn ôl dulliau ariannol ac anariannol fel y nodir isod:



SROI – Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)

GVE = Y Gyfnewidfa Gwerthoedd Fyd-eang (GVE)



CREW = Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW)

Sylwadau ac argymhellion:

Mae nifer o themâu allweddol wedi codi o'r Adolygiad hwn. Mae'r brif thema yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng atebolrwydd 'tuag at i fyny' ac atebolrwydd 'tuag at i lawr'. Dengys y drafodaeth ynghylch y dulliau gweithredu a'r modelau gwahanol a ddefnyddir gan wahanol sectorau bwysigrwydd ystyr-ied mater allweddol atebolrwydd. Yng nghyd-destun tai, a oes mesuriadau gwerth am arian ar gael er mwyn rhoi sicrwydd i ddarparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau neu'r ddau?

Mae'r dulliau gweithredu a gynigir gan HouseMark yng Nghymru a'r Alban yn canolbwyntio ar gynnwys tenantiaid; sicrhau math o atebolrwydd 'tuag at i lawr'. Caiff hyn ei adleisio ym meysydd Datblygu Rhyngwladol ac lechyd sy'n edrych ar y ffordd y gall mesuriadau gwerth am arian gyfrif am yr effaith y gall y buddsoddiad hwnnw mewn gwasanaethau ei chael ar fywydau unigolion.

Gellid adeiladu ar y dull hwn o weithredu wrth greu model Cymreig ar gyfer gwerth am arian i Gymdeithasau Tai. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fabwysiadu ymagwedd Gymreig tuag at y cysyniad hwn, a chysoni hyn â blaenoriaethau ehangach. Drwy ganolbwyntio ar denantiaid a'r hyn y gallant ei wneud a bod, gellir cyrraedd y Dangosyddion Cenedlaethol sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn benodol, gellir gweld bod hyn yn berthnasol i'r Ddyletswydd Llesiant sydd wedi'i chynnwys yn y darn hwn o ddeddfwriaeth.

1. Ffocws ar sicrhau cydbwysedd rhwng atebolrwydd tuag at i fyny ac atebolrwydd tuag at i lawr
2. Cyfuno mesurau ariannol â dangosyddion canlyniadau ar gyfer tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau eraill
3. Mabwysiadu dull cydreoleiddio o ddatblygu model gwerth am arian newydd – gan gynnwys tenantiaid
4. Bydd y Rheoleiddiwr yn mabwysiadu dull galluogi o sicrhau gwerth am arian yn hytrach na dull gorfodi, gan gefnogi'r dull cydreoleiddio.

ADRAN 3 – MESUR GWERTH AM ARIAN

“The money bit is easy”

Stuart Epps, Is-gadeirydd, Cartrefi Cymunedol Cymru, Fforwm Cyllid

Nododd y Grŵp Llywio ar unwaith fod angen prif set o fesurau o werth am arian a llwyddodd i gysylltu â gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo drwy Fforwm Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru.

Mesurau o Werth am Arian Cymru

O ganlyniad, mae gan Gymru bellach set o brif fesurau o werth am arian y cytunwyd arni â'r sector a'r rheoleiddiwr ac sydd bellach yn cael ei defnyddio ganddynt. Mae'r dull hwn o weithredu yn enghraifft wych o ba mor bwysig ydyw bod y sector yn arwain y ffordd.

Mae'r mesurau a ddatblygwyd gan Fforwm Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru bellach yn rhan o gyfrifon cynhwysfawr - sef dull gweithredu sy'n ceisio sicrhau cysondeb ac, felly, ennyn hyder mewn cymariaethau, a byddant ar gael bob blwyddyn.

Mae'r mesurau y cytunwyd arnynt gan Fforwm Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru fel a ganlyn

1. Costau gweithredu ar gyfer gosodiadau fesul uned tai cymdeithasol
2. Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol
3. Costau gwaith atgyweirio ymatebol fesul uned tai cymdeithasol
4. Costau gwaith atgyweirio mawr a chydannau fesul uned tai cymdeithasol
5. Drwgddyledion fesul uned tai cymdeithasol
6. Cost cyfalaf gyfartalog wedi'i phwysoli
7. Llif arian parod rhydd (cyn hawlio arian neu ad-dalu benthyciadau)
8. Ôl-ddyledion gros/trosiant tai cymdeithasol
9. Cyfanswm y rhent fesul uned tai cymdeithasol
10. Rhenti a gollwyd o eiddo gwag fesul uned tai cymdeithasol

Cerdyn Sgorio'r Sector yn Lloegr

Wrth i'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn dynnu at ei derfyn, lansiodd y sector cymdeithasau tai yn Lloegr 15 o ddangosyddion effeithlonrwydd sy'n ffurfio cerdyn sgorio'r sector ar gyfer mesur effeithlonrwydd o fewn y sector. Mae'r cerdyn sgorio hwn wrthi'n cael ei dreialu gan y sector yn Lloegr.

Ceir y dangosyddion Seisnig yn Atodiad 4 ac yn
<http://www.sectorscorecard.org.uk/>

Mae'r Grŵp Llywio Gwerth am Arian yn cynnig y dylid adolygu'r mesurau Cymreig flwyddyn ar ôl dechrau eu defnyddio ac yng ngoleuni'r profiad a gafwyd wrth ddefnyddio'r dangosyddion Seisnig.

Defnyddio'r Mesurau o Werth am Arian

Nod y mesurau yw helpu'r sector a'r rheoleiddiwr i ddeall costau a pherfformiad presennol gan ategu camau gwella sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Cyhoeddir manylion am berfformiad y sector yn y Cyfrifon Cynhwysfawr. Ni fwriedir cyhoeddi manylion am berfformiad cymdeithasau tai unigol er y bydd y wybodaeth hon ar gael i'r Rheoleiddiwr ac y caiff ei defnyddio ganddo.

- Sut y bydd y Rheoleiddiwr yn defnyddio'r mesurau o werth am arian?
 - Yn groes i'r pryderon a fynegwyd gan rai ar y dechrau, nid yw'n fwriad gan y rheoleiddiwr greu tablau cynghrair nac enwi cymdeithasau tai sy'n perfformio'n wael.
 - Caiff y mesurau o werth am arian eu defnyddio gan y rheoleiddiwr i gynnal trafodaeth hyddysg a phenodol ynghylch gwerth am arian fel rhan o gyswllt rheoleiddiol.
 - Nod y trafodaethau hyn fydd annog sefydliadau i wneud y gwaith sydd ei angen i ddeall eu perfformiad a, lle y bo angen, ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwella.
- Sut y dylai cymdeithasau tai ddefnyddio'r mesurau o werth am arian?
 - Er mwyn rhoi cyd-destun ar gyfer dadansoddi eu perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian yn fanwl, gan lywio'r gwaith o oruchwylio gwerth am arian a gweithgarwch llywodraethu cysylltiedig
 - At ddibenion meincnodi gyda grwpiau cymheiriaid priodol, gan gymharu perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian ag eraill
 - Er mwyn cymharu eu perfformiad eu hunain dros amser, gan ddangos cynnydd ac effaith gronol
 - Er mwyn dangos eu perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian mewn ffordd dryloyw i denantiaid a rhanddeiliaid eraill

Cael Gafael ar y Mesurau o Werth am Arian o fewn Cyfrifon Cynhwysfawr

Mae'r ffigurau ar gael drwy'r ddolen a nodir isod
<http://chcymru.org.uk/cy/publications/global-accounts/>

Prif gostau tai cymdeithasol fesul uned a ffactorau allweddol o ran amrywiadau cost

Ystyriodd y Grŵp Llywio y dadansoddiad cynhwysfawr o berfformiad y sector yn Lloegr o ran costau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan y rheoleiddiwr tai yn Lloegr.

Yn gyffredinol, datblygodd y dadansoddiad hwnnw ddull safonol o gyfrifo prif gostau tai cymdeithasol fesul uned, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael o'r Cyfrifon Cynhwysfawr a gyhoeddwyd ar gyfer y sector, ar gyfer pob darparwr cofrestredig, fel y gellir gwneud cymariaethau dros amser a rhwng darparwyr. Wedyn, defnyddiodd y dadansoddiad y data ar gostau tai cymdeithasol fesul uned i gynnal dadansoddiad atchweliad a geisiodd nodi a oedd nodweddion allweddol y sector yn cael effaith sylweddol ar gostau rheoli.

Dengys dadansoddiad y Rheoleiddiwr yn Lloegr y gellir priodoli tua 50% o'r amrywiadau mewn costau i chwe ffactor, sef:

- Y ddarpariaeth tai â chymorth
- Cyflogau rhanbarthol
- Trosglwyddiadau stoc
- Tai i bobl hŷn
- Amddifadedd cymdogaethau
- Cyflwr y stoc bresennol – statws Cartrefi Gweddus

Nododd y dadansoddiad hwn NAD oedd y ffactorau canlynol yn rhai pwysig

- Dosbarthiad daearyddol stoc
- Cyfranogiad mewn gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â thai cymdeithasol
- Maint y darparwr

Fel rhan o'n hadolygiad, ceisiwyd dyblygu'r gwaith a wnaed yn Lloegr ar gyfer Cymru. Roedd yn hawdd cyfrifo prif gostau tai cymdeithasol fesul uned. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl cynnal dadansoddiad atchweliad ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru gan fod poblogaeth y cymdeithasau tai mor fach. Mae cyngor ystadegol yn dangos yn glir y byddai angen i'r dadansoddiad gynnwys cymaint o gafeatau fel y byddai'n annhebygol iawn o ddarparu unrhyw wybodaeth ddibynadwy am y ffactorau allweddol yng Nghymru yn ychwanegol at y wybodaeth y gellid ei chael o'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn Lloegr.

Y camau nesaf

- Mae'r mesurau presennol yn gam cyntaf i raddau helaeth. Dim ond pan fydd mesurau ar gael ar gyfer canlyniadau 'mwy meddal' gwasanaethau craidd a gweithgarwch sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol y gellir cael darlun cyflawn o'r sefyllfa o ran gwerth am arian a chymdeithasau tai yng Nghymru.
- Nid yw'r mesurau presennol yn cynnwys mesur ar gyfer gweithgarwch datblygu. Er ei fod yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â datblygu mesur/au effeithiol ar gyfer gweithgarwch datblygu, mae'r Grŵp Llywio

yn glir bod angen mesur/au ac yn croesawu ymrwymiad y Fforwm Cyllid i ddatblygu mesur o'r fath

- Yng ngoleuni'r profiad a gafwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf y'u defnyddiwyd ac yng ngoleuni'r profiad a gafwyd wrth ddefnyddio dangosyddion effeithlonrwydd Lloegr, adolygu effeithiolrwydd, perthnasedd a chwmpas y mesurau o werth am arian.
- Mae angen gosod y mesurau o werth am arian yn eu cyd-destun. Fel rhan o waith yr adolygiad, gwnaed rhywfaint o waith dadansoddi i ddeall a allai boddhad tenantiaid fod yn ddefnyddiol fel mesur o effeithiolrwydd/canlyniadau gwasanaethau. Ni ddaeth y dadansoddiad a gynhaliwyd i unrhyw gasgliadau pendant ac fe'i rhwystrwyd gan y ffaith nad oedd unrhyw wybodaeth ddibynadwy, gyfredol ar gael am foddhad tenantiaid ar gyfer y sector cyfan.
- Roedd y Grŵp Llywio o'r farn y dylid rhoi'r dadansoddiad hwn o'r neilltu am y tro a rhoi cynnig arall arni pan fydd gwybodaeth o ansawdd gwell am foddhad tenantiaid ar gael. Fel rhan o ffurflen data flynyddol y Rheoleiddiwr, o 2017, gofynnir i gymdeithasau tai ddarparu gwybodaeth safonol am foddhad tenantiaid ag agweddau allweddol ar wasanaethau cymdeithasau tai. Pan fydd gwybodaeth ddibynadwy am foddhad tenantiaid ar gael ar gyfer y sector, gwneir rhagor o waith i asesu pa mor ddefnyddiol ydyw fel mesur o ganlyniadau gwasanaethau.
- Mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn tynnu sylw at ddulliau posibl eraill o fesur canlyniadau, megis cynnal tenantiaethau a dadansoddi canlyniadau costau. Bydd gwaith pellach ar y maes hwn yn rhan o'r cylch gwaith ar gyfer cam nesaf y gwaith ar elfennau tenantiaid ar werth am arian.

ADRAN 4 - Safbwyntiau Tenantiaid

Nododd ein hadolygiad o lenyddiaeth y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am yr elfen hon ar werth am arian.

Cytunodd y Grŵp Llywio â barn bendant y sector na ellir cael darlun cyflawn o'r sefyllfa o ran gwerth am arian heb gynnwys safbwyntiau a blaenoriaethau tenantiaid.

Mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn tynnu sylw at y cysyniad o atebolrwydd tuag at i lawr, sy'n seiliedig ar ddarparu cyfiawnhad i'r bobl syn' cael y gwasanaethau Mae hyn yn cyferbynnu ag atebolrwydd tuag at i fyny, sy'n seiliedig ar ddarparu cyfiawnhad i arianwyr. Gweler [http://chcymru.org.uk/uploads/general/VfM_Literature_Review - Final.pdf](http://chcymru.org.uk/uploads/general/VfM_Literature_Review_-_Final.pdf) am ragor o wybodaeth.

Mae'r Grŵp Llywio yn bendant o'r farn mai'r model atebolrwydd tuag at i lawr sy'n adlewyrchu dull rheoleiddio Cymru orau gyda "tenantiaid wrth wraidd gweithgarwch rheoleiddio".

Mae datblygu dull gweithredu effeithiol er mwyn ystyried safbwyntiau tenantiaid ar werth am arian yn un o'r blaenoriaethau allweddol nesaf ar gyfer y grŵp llywio gwerth am arian. Caiff y gwaith hwn ei gwmpasu gan y Grŵp Llywio a'i wneud gan TPAS Cymru.

Bydd gwaith TPAS Cymru yn ystyried cwestiynau allweddol a ddatblygwyd gan y Grŵp Llywio (gweler Atodiad 2), gwaith a wnaed gan y Panel Cynghori Tenantiaid yng nghynadledau Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru yn ystod Hydref 2016 (gweler Atodiad 3) ac elfennau'r mesurau o ganlyniadau a nodir yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

ADRAN 5 GWERTH CYMDEITHASOL

Mae trafodaethau â'r sector yng Nghymru yn nodi'n glir yr ystyrir bod gwerth cymdeithasol yn hanfodol i waith y sector ac, felly, yn hanfodol i unrhyw ddull cydlynol o sicrhau gwerth am arian yng Nghymru.

Mae angen dull mwy cadarn o ymdrin â gwerth cymdeithasol

Derbynnir yn gyffredinol bod angen dulliau mwy cadarn o ymdrin â gwerth cymdeithasol sy'n cwmpasu'r canlynol

- Prosesau gwneud penderfyniadau strategol mewn perthynas â gweithgarwch sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol - eglurder ynglŷn â chostau cyfle h.y. pa weithgareddau eraill y gallai cymdeithasau tai ymgymryd â hwy yn lle'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni mewn perthynas â gwerth cymdeithasol e.e. adeiladu cartrefi newydd, cyflwr eiddo sy'n bodoli eisoes,
- Pennu cwmpas gweithgareddau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol, gwerthuso opsiynau a blaenoriaethau a pha opsiynau a fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at amcanion cymdeithasol y sefydliad.
- Pennu canlyniadau dymunol mentrau gwerth cymdeithasol penodol
- Gwerthuso canlyniadau gweithgarwch sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol er mwyn nodi a yw canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni ac a ydynt yn cyfrannu'n effeithiol at amcanion cymdeithasol y sefydliad.

Opsiynau ar gyfer mesur canlyniadau gweithgareddau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol

Mae'r adolygiad o lenyddiaeth yn nodi amrywiaeth o ddulliau posibl o fesur canlyniadau gweithgareddau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd, megis Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad, pecyn cymorth HACT ar gyfer Gwerthuso Llesiant, 'Landscape' Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW), Atmosphere and Horizon, pecyn cymorth Gwerth Cymru, y Gyfnewidfa Gwerthoedd Fydeang, y mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar werthoedd ariannol tra bod eraill yn canolbwyntio ar werthoedd anariannol.

Mae i'r dulliau gweithredu a nodwyd fanteision ac anfanteision ac maent yn amrywio o ran pa mor effeithiol ydynt wrth fesur canlyniadau.

Mesur y canlyniadau meddal

Mae heriau yn gysylltiedig â mesur canlyniadau meddal llawer o waith sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol. Yn yr un modd, mae heriau yn gysylltiedig â mesur canlyniadau meddal gwasanaethau craidd cymdeithasau tai.

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn defnyddio dulliau gweithredu gwahanol sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud unrhyw gymariaethau ystyrlon a meithrin dealltwriaeth o ddulliau gweithredu effeithiol.

Mae angen ystyried dulliau er mwyn asesu effeithiolrwydd a helpu i rannu'r hyn a ddysgwyd a dulliau gweithredu hyddysg, mwy trylwyr.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wrthi'n gwneud gwaith ym maes gwerth cymdeithasol ar hyn o bryd. Y bwriad yw y caiff y fîm rheoleiddio ei gynrychioli ar y grŵp llywio ar gyfer y gwaith hwn ac mae cadeirydd y grŵp llywio wedi ymuno â'r grŵp llywio Gwerth am Arian.

Mae cwmpas y gwaith hwn ym maes gwerth cymdeithasol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

ADRAN 6 DEDDF CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod angen cymryd agwedd tymor hwy gan anelu at gyflawni canlyniadau cynaliadwy ac ystyried anghenion tenantiaid yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion tenantiaid presennol.

Mae'r Grŵp Llywio yn glir bod yn rhaid i ddulliau o sicrhau gwerth am arian ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn fanwl, gan sicrhau y caiff anghenion y genhedlaeth bresennol eu diwallu heb danseilio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae cynaliadwyedd a chymryd agwedd hirdymor yn hanfodol i unrhyw ddull effeithiol o sicrhau gwerth am arian.

Wrth ddatblygu dulliau o sicrhau gwerth am arian, argymhellir y dylid ystyried cyfrannu at y saith nod llesiant, sef:

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- Mwy cyfartal
- Cymunedau cydlynus
- Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang

A'r ffyrdd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cynnwys

ADRAN 7 ARGYMHELLION AR GYFER GWEITHREDU YN Y DYFODOL

Gwaith datblygu pellach – Argymhellion

AR GYFER Y GRŴP LLYWIO GWERTH AM ARIAN

- Datblygu cynigion ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar y canlynol
 - Agweddau ar werth am arian sy'n ymwneud â thenantiaid – gan weithio gyda TPAS Cymru yn ei rôl fel sefydliad sy'n cefnogi tenantiaid
 - Astudiaeth fanwl o werth am arian mewn un maes o weithgarwch cymdeithasau tai
- Ymgysylltu â gwaith Cartrefi Cymunedol Cymru ar fesur gwerth am arian mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol

AR GYFER CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU

- Drwy'r Fforwm Cyllid, helpu i ddatblygu mesur/au penodol sy'n cwm-pasu gweithgarwch datblygu
- Drwy'r Fforwm Cyllid, adolygu pa mor effeithiol y mae mesurau gwerth am arian yn cael eu defnyddio, yng nghyd-destun y profiad a gafwyd wrth ddefnyddio mesurau effeithlonrwydd Lloegr.
- Datblygu dulliau'r sector o fesur gwerth am arian mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol yn effeithiol

AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU / Y RHEOLEIDDIWR

- Datblygu pecyn cymorth ar gyfer rheolwyr rheoleiddio i'w helpu i gynnal sgysiau penodol â chymdeithasau tai ynghylch eu perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian, eu dealltwriaeth o'r perfformiad hwnnw a'u cynigion ar gyfer gwella
- Dwyn cymdeithasau tai i gyfrif am eu perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian drwy ganolbwyntio ar y safon perfformiad berthnasol a defnyddio perfformiad o ran sicrhau gwerth am arian fel ffactor wrth lunio barn ynglŷn â statws cyd-reoleiddio
- Casglu data safonol ar foddhad tenantiaid â gwasanaethau landlordiaid allweddol er mwyn rhoi darlun o'r sector cyfan ac i'w defnyddio wrth feincnodi/cynllunio gwelliant
- Parhau i gefnogi gwaith y grŵp llywio gwerth am arian

TPAS CYMRU

- Fel sefydliad cefnogi tenantiaid sy'n cael arian grant, gweithio gyda'r grŵp llywio gwerth am arian i ddatblygu prosiect sy'n canolbwyntio ar ddatblygu elfen y tenantiaid ar werth am arian, gan gynnwys mesurau mwy meddal mewn perthynas â chanlyniadau ar gyfer tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau

Cymorth – Argymhellion

AR GYFER CARTREFI CYMUNEDOL CYMRU

- Helpu'r sector i ddatblygu dulliau effeithiol o sicrhau gwerth am arian sy'n mynd i'r afael â'r materion sylweddol sy'n ymwneud â gwerth am arian ac unrhyw aneffeithlonrwydd craidd
- Cysylltu gwerth am arian â'r hyn sydd i'w gynnig ym maes ehangach llywodraethu, gan bwysleisio rôl allweddol Byrddau o ran datblygu'r agenda gwerth am arian, gan alluogi aelodau byrddau i gyflawni eu prif gyfrifoldeb o ran gwerth am arian a lleoli gwerth am arian yn bendant yn ystafell y bwrdd
- Gan weithio gyda'r Rheoleiddiwr, rhoi arweiniad ar rannu dysgu drwy'r sector cyfan

AR GYFER LLYWODRAETH CYMRU / Y RHEOLEIDDIWR

- Canolbwyntio ar helpu cymdeithasau tai i wella dulliau o sicrhau gwerth am arian
- Defnyddio mesurau o werth am arian a dealltwriaeth o berfformiad ac arfer o ran sicrhau gwerth am arian drwy'r sector cyfan i lywio'r gwaith o lunio polisiâu yn y dyfodol
- Gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru er mwyn sicrhau y caiff yr hyn a ddysgwyd ynglŷn â gwerth am arian ei rannu

ADRAN 8 – Diolch

Ni fyddai'r adolygiad hwn, a'r gwaith parhaus ar Werth am Arian, wedi bod yn bosibl heb gydweithrediad, cymorth a chyfraniadau nifer fawr o bartion â diddordeb.

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r canlynol

- Aelodau'r Grŵp Llywio Gwerth am Arian
- Cydweithwyr rheoleiddio yn yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau
- HouseMark, yn enwedig Steve Smedley
- Sue Harvey a Jon Slade o ymgynghoriaeth Campbell Tickell

ADRAN 9 ATODIADAU

1. Aelodau'r Grŵp Llywio Gwerth am Arian
2. Cwestiynau allweddol ar gyfer gwaith ar safbwyntiau tenantiaid ar werth am arian
3. Canlyniadau trafodaethau TAP yng nghynhadledd Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2016
4. Cerdyn Sgorio'r Sector yn Lloegr

Afodiad 1

Aelodau'r Grŵp Llywio - rhwng mis Gorffennaf 2016 a mis Chwefror 2017

Lisa Amos, Llywodraeth Cymru (o fis Hydref 2016)

Clarissa Corbisiero Peters, Cartrefi Cymunedol Cymru

Stuart Epps, Cartrefi Cymunedol Cymru, Fforwm Cyllid

Marc Fury, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Gayna Jones, Bwrdd Rheoleiddio Cymru

Carol Kay, Llywodraeth Cymru

Nick Selwyn, Swyddfa Archwilio Cymru

Bob Smith, Bwrdd Rheoleiddio Cymru

Helen Taylor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Zoe Weaver, Llywodraeth Cymru (hyd at fis Hydref 2016)

Atodiad 2

Cwestiynau allweddol ar gyfer gwaith ar safbwyntiau tenantiaid ar werth am arian

- Beth yw blaenoriaethau tenantiaid o ran gwerth am arian?
- Beth mae gwerth yn ei olygu i denantiaid?
- Sut y gallwn sicrhau atebolrwydd am werth am arian i denantiaid?
- Tryloywder ynglŷn â chostau
 - Mynd ati'n ddyfal i sicrhau gwerth am arian
 - Cynnwys tenantiaid mewn trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian
 - Strategol a gweithredol
 - Dulliau o wneud penderfyniadau strategol a chynnwys tenantiaid sy'n seiliedig ar sicrhau gwerth am arian
 - Boddhad tenantiaid fel mesur o effeithiolrwydd gwasanaethau
- Mae'r elfen effeithiolrwydd ar werth am arian yn darparu cyswllt clir â chanlyniadau gwasanaethau a'r angen amlwg am safbwyntiau tenantiaid
- Mae hynny hefyd yn cysylltu â'r elfen tegwch ar werth am arian
- Sut mae mesur effeithiolrwydd gwasanaethau? Rôl a chyfranogiad tenantiaid yn y gweithgarwch hwn.
- Yn strategol mae a wnelo gwerth am arian â dewisiadau hyddysg – y disgwyl y caiff tenantiaid eu cynnwys wrth ystyried y dewisiadau hynny a'r cyfaddawdu a'r costau cyfle. Mae galluogi tenantiaid i wneud hynny yn her allweddol.
- Beth mae tenantiaid yn ei gyfrannu at y broses honno? Sut maent yn gwneud hynny?
- Gwerth am arian cyfranogiad tenantiaid

Atodiad 3

Canlyniadau gwaith y Panel Cyngori Tenantiaid ar Werth am Arian yng nghynadleddau Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru



Yr Hyn y mae Tenantiaid am ei Gael

Rhif 1: Gwerth am Arian - Rhagfyr 2016

Yr Hyn y mae Tenantiaid am ei Gael

'Mae diwygiadau lles yn golygu bod gan denantiaid lai o incwm. Dylai cymdeithasau ddangos gwerth am arian ac effeithlonrwydd'

Tenant y cyfwelwyd ag ef yng Nghynhadledd TPAS ym mis Hydref 2016

Mae adroddiadau *Yr Hyn y mae Tenantiaid am ei Gael* yn seiliedig ar ryngweithio rhwng y Panel Ymgynghorol Tenantiaid (TAP) a thenantiaid cymdeithasau tai ledled Cymru ar y pethau sy'n bwysig iddynt.

Maent yn anelu at roi crynodeb o farn a phryderon tenantiaid ar themâu presennol a chynigion ar gyfer newid y gellir wedyn eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn ei rôl fel rheoleiddiwr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (RBW). Y gobaith hefyd yw y bydd yr adroddiadau hyn yn ddefnyddiol i denantiaid yng Nghymru a'u landlordiaid.

Gwerth am Arian

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (RBW) yn arwain astudiaeth ar werth am arian gwasanaethau cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn ystyried tair elfen - pa mor effeithlon, effeithiol a darbodus yw gwasanaethau, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth ar gyfer 'gwerth ychwanegol' o ran y buddiannau ehangach a gyflwynir gan gymdeithasau tai i gymunedau.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- Arolygon unigol gyda 28 o denantiaid.
- Trafodaethau saith grŵp ffocws a hwyluswyd gan aelodau'r Panel Ymgynghorol Tenantiaid fel rhan o ddigwyddiadau Tenantiaid Cymru a TPAS Cymru ym mis Medi a mis Hydref 2016.

Caiff y templed a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau unigol ei gynnwys yn **Atodiad 1**. Defnyddiwyd y fformat hwn hefyd fel ffordd o annog trafodaethau mewn gweithdai ac ychwanegwyd cwestiwn am flaenoriaethau allweddol tenantiaid a bydd y wybod-

aeth hon yn arbennig o ddefnyddiol wrth bennu themâu i ymgynghori arnynt yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd hefyd at gyhoeddiad diweddar Cartrefi Cymunedol Cymru / Housemark *Cynyddu ein Cyfraniad i'r Eithaf: Canllawiau ymarferol i gymdeithasau tai Cymru ar sut i ddiffinio, darparu a dangos Gwerth am Arian*. Ceir darn o'r adroddiad hwnnw ar safbwyntiau tenantiaid ar werth am arian yn **Atodiad 2**.

I ddilyn, ceir crynodeb o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg. Trefnwyd yr ymatebion o amgylch y cwestiynau allweddol a ofynnwyd. Cynhwysir y casgliadau ar y prif faterion a nodwyd ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cwestiynau Allweddol ac Ymatebion

A yw tenantiaid o'r farn eu bod yn cael gwerth am arian gan eu landlord?

'Mae gan wahanol bobl wahanol farn o ran yr hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu'

Tenant yn un o grwpiau ffocws y Panel Ymgynghorol Tenantiaid yng nghynhadledd Tenantiaid Cymru, Medi 2016

Ym marn 86% o'r unigolion y cyfwelwyd â hwy, roedd eu landlordiaid yn cynnig gwerth am arian. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno'n gyffredinol, nid oedd y tenantiaid a gymerodd ran yn y gweithdai mor sicr bod hyn bob amser yn wir ac roeddent yn barod i ategu'r farn hon gydag enghreifftiau, gan gynnwys y canlynol:

- Dim digon o staff wrth gefn pan oedd aelodau o staff yn sâl.
- Safonau yn gostwng o dan contractau newydd.
- Nid oedd terfynau amser ar gyfer cwblhau gwaith atgyweirio bob amser yn cael eu cyflawni.
- Dim digon o ymgynghori a chyfathrebu.

A yw tenantiaid o'r farn bod eu landlord yn gwario'r incwm a gaiff o renti yn ddoeth?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unigol (78%) o'r farn bod hyn yn wir, er bod eraill o'r farn nad oedd bob amser yn wir. Roedd un yn arbennig o'r farn nad oedd mewn sefyllfa i benderfynu gan nad oedd wedi gweld unrhyw 'fanylion o ran gwybodaeth am gostau'. Roedd cyfranogwyr y gweithdai yn cytuno â'r safbwyntiau hyn, gan ddatgan yn gyffredinol bod incwm yn cael ei wario'n ddoeth ond gan nodi ei bod yn anodd penderfynu a oedd hyn bob amser yn wir gan nad oedd digon o wybodaeth ar gael iddynt.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol am rai gwasanaethau gan gynnwys cymorth cyfranogiad tenantiaid ac addasiadau i eiddo. Roedd gan un tenant bryderon am effaith lleihau costau yn y dyfodol.

Sut y gallai landlordiaid gynnig gwell gwerth am arian?

'Nid wyf yn hapus am yr adeilad newydd gan fod angen moderneiddio fy eiddo i...mae'n defnyddio system wresogi "economy seven" fel y'i gelwir yn y 21^{ain} ganrif!'

Tenant y cyfwelwyd ag ef yng Nghynhadledd Tenantiaid Cymru, Medi 2016

Nododd tua thraean yr unigolion y cyfwelwyd â hwy fod angen gwell cyfathrebu rhwng y landlord a thenantiaid, gan gynnwys:

- Mwy o adborth ar ôl ymgynghori.
- Sicrhau bod tenantiaid yn cael eu hysbysu'n well yn gyffredinol.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.
- Gwranddo mwy ar ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Cynnwys cwestiynau gwerth am arian fel rhan o arolygon o denantiaid.

Gofynnodd un ymatebwr am fwy o waith partneriaeth fel ffordd o ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon.

Roedd y tenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn cytuno bod angen gwell-a'r trefniadau cyfathrebu. Nodwyd nifer o feysydd penodol ganddynt hefyd mewn perthynas â chontractwyr a allai gynnig gwell gwerth am arian, gan gynnwys:

- Rheoli contractau yn well.
- Sicrhau cyfnodau gwarantedig hwy ar gyfer gwaith.
- Gwella ansawdd gwaith contractwyr.
- Cael gwared ar gontractwyr os yw eu gwaith yn methu'n gyson â chyrraedd safonau uchel.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Gwario mwy o arian ar wella eiddo hŷn sy'n anos ei gwresogi.
- Craffu'n well ar y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys cyllidebau.
- Buddsoddi mwy mewn cartrefi sy'n hŷn er mwyn sicrhau eu bod yn fwy fforddiadwy i'w rhedeg.

Beth sy'n bwysicach i denantiaid - cost, ansawdd gwasanaethau neu safon cartrefi?

Roedd mwy o denantiaid (32%) a oedd o'r farn mai ansawdd eu cartref oedd bwysicaf na'r rheini a oedd o blaid ansawdd gwasanaethau (25%). Roedd y grwpiau ffocws wedi'u rhannu 50/50 yn hyn o beth.

Er mai dim ond un unigolyn y cyfwelwyd ag ef a soniodd am gost, nododd dau grŵp ffocws fod cost yn fater pwysig.

Sylwadau eraill

'Mae tenantiaid yn gweithredu fel aelodau craffu ac yn gwrando ac yn rhoi adborth i'n landlord o ran yr hyn y mae tenantiaid am ei gael a sut y gallant sicrhau gwell gwerth am eu harian. Mae tenantiaid am gael eu clywed'

Tenant yn un o grwpiau ffocws y Panel Ymgynghorol Tenantiaid, cynhadledd Tenantiaid Cymru, Medi 2016

Dangoswyd budd rhoi'r cyfle i denantiaid - yr unigolion y cyfwelwyd â hwy a'r unigolion a ddaeth i'r gweithdai - leisio eu pryderon a chyflwyno eu safbwyntiau gan yr amrywiaeth o faterion a ddaeth i'r amlwg fel rhan o'r broses. Roedd y materion hyn yn cynnwys:

- Barn nifer o denantiaid fod landlordiaid yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiadau newydd yn hytrach na chynnal a chadw a gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes a bod angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y ddau
- Yr angen am fwy o ardaloedd chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- Cymorth i gymdeithasau tai sy'n darparu buddiannau ehangach i'r gymuned

Efallai nad yw'n syndod, o ystyried mai tenantiaid gweithredol oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, bod cefnogaeth gref o blaid gweithgareddau gan landlordiaid i gynnwys tenantiaid. Roedd cefnogaeth benodol o blaid cynnwys tenantiaid mewn gwaith monitro parhaus ac effeithiol mewn perthynas â pherfformiad landlordiaid, er enghraifft, drwy baneli craffu tenantiaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cydnabod sut y gall gwaith craffu arwain at well penderfyniadau a gwell gwerth am arian.
- Pwysigrwydd rhoi adborth i denantiaid ar ganlyniadau eu cyfranogiad.
- Sicrhau y caiff tenantiaid gymorth ac y gallant gael gafael ar adnoddau, gan gynnwys hyfforddiant, rhwydweithiau a chymorth gan gyfoedion.
- Rôl craffu wrth fonitro costau staff.

Beth yw'r Blaenoriaethau Allweddol i Denantiaid Iedled Cymru?

Drwy roi cyfle i'r tenantiaid a gymerodd ran yn y gweithdai nodi'r hyn sydd bwysicaf iddynt nawr a, chyn bwysiced, yn y dyfodol, tynnwyd sylw at nifer o faterion a allai helpu i lywio gwaith y Panel Ymgynghorol Tenantiaid a Bwrdd Rheoleidiol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwell cyfathrebu rhwng landlordiaid a thenantiaid.
- Cynnwys y gymuned ac ymgysylltu â phreswylwyr.
- Effaith diwygiadau lles.
- Parhau i fonitro costau a gwerth am arian.
- Safonau ansawdd i gartrefi.
- Ansawdd gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio.
- Cyfleusterau cymunedol megis ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd.

- Cyfleoedd cyflogaeth i denantiaid.
- Diogelwch cymunedol a diogelwch unigolion.
- Gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.
- Adeiladu tai mwy fforddiadwy sy'n diwallu anghenion tenantiaid.
- Hawl cymdeithasau tai i aseinio eu heiddo.
- Trefniadau cyfnewid tenantiaid.
- Symleiddio rhestrau gwastraff cyffredin.
- Mwy o ymwybyddiaeth o drefniadau llywodraethu cymdeithasau tai.

Casgliadau

'Mae angen meddwl ymhellach am sut y caiff tenantiaid eu cynnwys mewn Gwerth am Arian a pha gefnogaeth a hyfforddiant y gallant fod ei angen i gyflawni hyn'

Cynyddu ein Cyfraniad i'r Eithaf: Cartrefi Cymunedol Cymru / Housemark 2016

Gwerth am Arian

Mae'r rhan fwyaf o denantiaid o'r farn bod eu landlord yn cynnig gwerth am arian mewn perthynas â gwasanaethau.

Fodd bynnag, ceir pryderon bod pwysau ariannol, mewn rhai achosion, yn arwain at wasanaethau gwaeth ac mae angen monitro'r sefyllfa yn ofalus.

Er eu bod yn gyffredinol fodlon bod incwm o renti yn cael ei wario'n ddoeth, mae tenantiaid am gael gwybodaeth glir am gostau er mwyn gallu llunio barn fwy hyddysg ar y mater.

Tynnwyd sylw at rai gwasanaethau penodol fel gwasanaethau a oedd yn cynnig gwerth am arian, gan gynnwys cymorth cyfranogiad tenantiaid ac addasiadau i eiddo.

Credir yn gyffredinol bod gwell cyfathrebu rhwng y landlord a thenantiaid yn hanfodol, gan gynnwys rhoi mwy o adborth a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae angen i landlordiaid wneud mwy o ymdrech i sicrhau bod contractwyr yn cynnig gwerth am arian, gan gynnwys rheoli contractau yn well, sicrhau cyfnodau gwarant-edig hwy ar gyfer gwaith a chael gwared ar contractwyr sy'n methu â chyrhaedd safonau gwaith uchel.

Roedd tenantiaid wedi'u rhannu o ran p'un ai ansawdd gwasanaethau neu safon cartrefi oedd bwysicaf. Ni nodwyd bod cost gwasanaethau yn un o'r prif ystyriaethau.

Teimlwyd ei bod yn bwysig bod landlordiaid yn sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng datblygu cartrefi newydd a chynnal a chadw a gwella cartrefi sy'n bodoli eisoes.

Roedd buddsoddiad ehangach yn y gymuned hefyd yn ffactor pwysig wrth i denantiaid benderfynu a oedd cymdeithasau tai yn cynnig gwerth am arian, gan gynnwys

darparu ardaloedd chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a darparu buddiannau eraill i'r gymuned.

Ymgysylltu â Thenantiaid

Ceir cefnogaeth gref o blaid gweithgareddau gan landlordiaid i gynnwys tenantiaid, gan gynnwys gwaith monitro mewn perthynas â pherfformiad landlordiaid, er enghraifft, drwy baneli craffu tenantiaid.

Mae'n bwysig sicrhau y darperir digon o amser ac adnoddau, gan gynnwys mynediad i hyfforddiant, rhwydweithiau a chymorth gan gyfoedion, i ategu cyfranogiad effeithiol.

Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

Tynnwyd sylw at nifer o faterion a allai helpu i lywio gwaith y Panel Ymgynghorol Tenantiaid a Bwrdd Rheoleiddiol Cymru yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cyfathrebu rhwng landlordiaid a thenantiaid, effaith diwygiadau lles, safonau ansawdd i gartrefi a gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethu mewn ardaloedd gwledig ac adeiladu tai mwy fforddiadwy.

Gwaith y Panel Ymgynghorol Tenantiaid

Yn ogystal â chynnig sylwadau gwerthfawr ar y pwnc, mae'r ymarfer hwn gyda thenantiaid i gael gwybod eu barn ar werth am arian wedi tynnu sylw at fuddiannau dull gweithredu rhyngweithiol, yn hytrach na dim ond casglu barn tenantiaid drwy holiaduron drwy'r post.

Y Panel Ymgynghorol Tenantiaid (TAP)

Nod cyffredinol y Panel Ymgynghorol Tenantiaid yw sicrhau bod tenantiaid wrth wraidd y trefniadau ar gyfer rheoleiddio'r sector cymdeithasau tai yng Nghymru. Gwnawn hyn drwy wneud y canlynol:

- gwrando ar safbwyntiau tenantiaid ac adlewyrchu'r safbwyntiau hynny
- cynnal cydberthnasau cadarn gyda Bwrdd Rheoleiddiol Cymru, y Rheoleidiwr a'r sector cymdeithasau tai
- dangos a hyrwyddo gwerth ymgysylltu â thenantiaid wrth wella gwasanaethau a sicrhau atebolrwydd landlordiaid i'w tenantiaid

I gael rhagor o wybodaeth am waith y Panel, cysylltwch â XXXXXXXXXX

Atodiad 1: Ffurflen arolwg Gwerth am Arian y Panel Ymgynghorol Tenantiaid



Aelod Panel:	Dyddiad:
Enw'r Tenant:	Cymdeithas Tai

Thema Adborth - **Gwerth am Arian**

Cefndir

Mae Bwrdd Rheoleiddiol Cymru (RBW) yn arwain astudiaeth ar werth am arian gwasanaethau landlordiaid Cymdeithasau Tai yng Nghymru.

Mae'r astudiaeth yn ystyried tair elfen - pa mor effeithlon, effeithiol a darbodus yw gwasanaethau, yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth ar gyfer 'gwerth ychwanegol' (buddiannau i gymunedau).

Mae'r Panel yn awyddus i gael adborth gan y corff tenantiaid ehangach

Cwestiynau allweddol i'w trafod:

- A ydych o'r farn eich bod yn cael gwerth am arian gan eich landlord?
- A ydych o'r farn bod eich landlord yn gwario'r incwm a gaiff o'ch rhent yn ddoeth?
- Sut y gellid gwella hyn, yn eich barn chi?
- Beth sydd bwysicach i chi - cost, ansawdd gwasanaethau neu safon eich cartref?

Nodiadau:

Unrhyw sylwadau eraill:

Atodiad 2: Safbwynt tenantiaid am werth am arian

Dyfyniad o *Cynyddu ein Cyfraniad i'r Eithaf: Canllawiau ymarferol i gymdeithasau tai Cymru ar sut i ddiffinio, darparu a dangos Gwerth am Arian* (Cartrefi Cymunedol Cymru / Housemark Hydref 2016).

Roedd y canfyddiadau canlynol yn seiliedig ar grwpiau ffocws a drefnwyd gan Tenantiaid Cymru a TPAS yn ystod 2016:

- Mae tenantiaid yn disgwyl gwerth da am y rhenti a'r taliadau gwasanaeth a dalant.
- Dylai Gwerth am Arian fod am fwy na dim ond torri costau neu godi tâl am wasanaethau ychwanegol. Dylai fod hefyd am gyfoethogi cenhadaeth graidd tai cymdeithasol o ddarparu cartrefi fforddiadwy a gwasanaethau. Er y derbynnir y gallai fod angen i gymdeithasau tai adeiladu cartrefi ar sail fasnachol i gael traws-sybsidi ar gyfer gweithgaredd craidd, ni ddylai hynny arwain at goli ffocws ar genhadaeth gymdeithasol.
- Mae pedwaredd elfen - tegwch - gwario'n deg i sicrhau y caiff y rhai yn yr angen mwyaf eu hystyried.
- Mae Gwerth am Arian yn ymwneud â'r berthynas rhwng costau gwasanaeth a safonau gwasanaeth. Mae angen gwneud hyn yn dryloyw fel y gall tenantiaid 'ddilyn yr arian' a deall beth sy'n gyrru cost rhent ac os cyflawnir Gwerth am Arian.
- Dylai tenantiaid sy'n ymwneud â Gwerth am Arian a'r prosesau craffu gael eu monitro'n gywir gyda'r hyfforddiant a'r wybodaeth maent eu hangen i sefydlu safonau, monitro a mesur allbynnau a gwerthuso eu heffaith.
- Mae tenantiaid yn cydnabod bod cymdeithasau tai yn gwasanaethu ystod eang o ddiddordebau rhanddeiliaid. Dylai landlordiaid fod yn glir yn eu cynlluniau corfforaethol am eu diben, rôl, y rhanddeiliaid y maent yn cynhyrchu deilliannau iddynt ac ystyr Gwerth am Arian iddynt. Wedyn mae angen i Werth am Arian gael ei:
 - reoli lle mae'r dilynol yn hollbwysig: llywodraethiant, stiwardiaeth arian-nol, rheoli perfformiad, caffaeliad a ffocws cwsmeriaid
 - arddangos - cyfathrebu'n dryloyw i sicrhau atebolrwydd
- Mae angen i denantiaid ddeall yr angen i adeiladu cartrefi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer y rhai mewn angen. Byddai llawer o denantiaid yn fodlon talu ychydig yn fwy o rent os oedd cyfraniad hynny tuag at ddarparu cartrefi newydd yn cael ei gyfathrebu a'i ddangos yn glir.

- Gall tenantiaid fod â rôl bwysig wrth gyflawni Gwerth am Arian: yn nhermau llunio'r gwasanaethau a ddymunir (e.e. gosod safonau a pholisïau) ac yna graffu ar yr hyn a gaiff ei ddarparu (gwerthuso deilliannau a dal y gweithredwyr a'r Bwrdd i gyfrif). Dylai tenantiaid a landlordiaid ddeall y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o ymgyfraniad gan fod y rolau yn wahanol a dylent gael eu trin felly.
- Mae rhai tenantiaid yn teimlo fod gwastraff yn y system, yn neilltuol yn nhermau defnydd adnoddau ac ymarfer aneffeithiol. Gall tenantiaid helpu i ddiffinio'r safonau optimwm - y gost isaf am y deilliant gorau - gan felly osgoi 'gorddarpariaeth' gwastraffus lle mae safonau yn uwch nag sy'n rhaid ac yn ddrud.
- Dylai landlordiaid ddeall effaith wirioneddol ymgyfraniad tenantiaid ar y sefydliad, yn neilltuol yn nhermau gostwng costau neu wella gwasanaethau.

Roedd y grŵp yn cefnogi'r agweddau hanfodol hyn ar sicrhau gwerth am arian yn seiliedig ar un o gyhoeddiadau blaenorol CIH/HouseMark: Embedding VFM, a ailgyhoeddwyd yn 2011: <http://comet.housemark.co.uk/hmresour.nsf/lookup/>

Afodiad 4

Cerdyn Sgorio'r Sector yn Lloegr

Nodir isod y mesurau sy'n cael eu treialu yn Lloegr ar hyn o bryd

1. Maint yr elw gweithredol
2. Cynnydd/lleihad yn yr elw gweithredol
3. EBITDA (Enillion cyn Treth ar Log ac Amorteiddio Gwaith Atgyweirio Mawr yn Gynwysedig)
4. Unedau a ddatblygwyd
5. Unedau a ddatblygwyd (fel canran o'r unedau a berchenogir)
6. Geriad
7. Boddhad cwsmeriaid o ran gwerth am arian
8. Y buddsoddiad mewn tai newydd am bob £1 a gynhyrchir o weithrediadau
9. Y buddsoddiad mewn cymunedau am bob £1 a gynhyrchir o weithrediadau
10. Yr elw o gyfalaf a ddefnyddiwyd
11. Meddiannaeth
12. Y gymhareb rhwng gwariant ar waith atgyweirio ymatebol a gwariant ar waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio
13. Prif gostau tai cymdeithasol fesul uned
14. Rhent a gasglwyd
15. Gorbenion fel canran o'r trosiant wedi'i addasu